

Yn bresennol

<p>Ynys Môn / Anglesey</p> <p>Blaenau Gwent</p> <p>Pen-y-bont ar Ogwr / Bridgend Edward Evans (EE) Alice Parry (AP) Donna Graves (DG)</p> <p>Caerffili/ Caerphilly Cyngorwr Anne Broughton-Pettit</p> <p>Caerdydd / Cardiff Donna Graves (DG)</p> <p>Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire Jennifer Harding-Richards (JHR)</p> <p>Ceredigion Rhianydd James (RJ) Keith Evans (KE)</p> <p>Conwy Roger Boon (RB) Phil Lord (PL)</p>	<p>Sir Ddinbych / Denbighshire Jennie Downes (JD) Phil Lord (PL)</p> <p>Sir y Fflint / Flintshire Vicky Barlow (VB)</p> <p>Gwynedd</p> <p>Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil Donna Graves (DG)</p> <p>Sir Fynwy / Monmouthshire Louise Brown (LB) Rachel Buckler (RBU) Wendy Barnard</p> <p>Castell-nedd Port Talbot / Neath Port Talbot Rachel Samuel (RS)</p> <p>Casnewydd / Newport Ali Mahammad (AC)</p> <p>Sir Benfro / Pembrokeshire</p> <p>Powys</p>	<p>Rhondda Cynon Taf Mathew Maidment (MM)</p> <p>Abertawe / Swansea</p> <p>Torfaen Emily Lloyd (EL)</p> <p>Bro Morgannwg / Vale of Glamorgan Donna Graves (DG) Tyler Saunders (TSA)</p> <p>Wrecsam / Wrexham Tania ap Siôn (TS) Libby Jones (LJ)</p> <p>PYCAG / NAPfRE Paula Webber (PW)</p> <p>EFTRE Phil Lord (PL)</p> <p>Consortiwm Canolbarth y De / Central South Consortium Donna Graves</p> <p>EAS</p>	<p>Sylwedyddion:</p> <p>MAGC</p> <p>CBAC Chris Owens (CO)</p> <p>ESTYN</p> <p>Llywodraeth Cymru Elin Stock (ES)</p> <p>REC Libby Jones (LJ)</p> <p>Yr Eglwys yng Nghymru Elizabeth Thomas (ET)</p> <p>Gwasanaeth Addysg Gatholig</p> <p>Cymwysterau Cymru</p> <p>Rhwydwaith Rhyng-ffydd</p> <p>ADEW Prifysgol Cymru</p> <p>PDC Y Drindod Dewi Sant</p> <p>Cofnodion (o'r recordiad) Jo Nicholls (JNI)</p> <p>Cyfieithydd: Sioned Jones</p>
---	---	--	---

Cofnodion y cyfarfod

1. Cyflwyniad a chroeso

Croesawodd EE yr aelodau i gyfarfod yr Hydref a chyflwynodd Will McLean (WM), Prif Swyddog, Plant a Phobl Ifanc, Cyngor Sir Fynwy.

Rhoddodd Will McLean groeso cynnes i Sir Fynwy a diolchodd i CYSAG a CCYSAGC am drefnu'r cyfarfod. Dywedodd WM ei bod yn ffrainc ac yn bleser mawr cael cynnal y cyfarfod. Mae CCYSAGauC yn gorff hynod bwysig i Sir Fynwy fel awdurdod lleol. Mae'r gwaith y mae CCYSAGauC yn ei wneud ledled Cymru yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan bob cydweithiwr yn Addysg Cymru.

Yn anffodus, oherwydd digwyddiad tân sylweddol yn y Fenni, roedd yr ALI yn dal i weithio drwy'r ymateb brys ac ni allai WM aros am y cyfarfod. Dymunodd gyfarfod cynhyrchiol i'r Pwyllgor o drafodaethau a myfyrdodau ar sut y gall y maes hollbwysig hwn symud ymlaen yn y dyfodol.

Diolchodd EE i WM.

2. Myfyrdod tawel

Arweiniodd EE fyfyrdod tawel gan gofio am y rhai sydd wedi cael eu heffeithio gan y tân yn y Fenni a'r gwasanaethau brys sy'n peryglu eu bywydau. Gan fod dyddiad y cyfarfod yn agos at ddydd y Cadoediad a Dydd y Cofio, gofynnodd EE i bawb feddwl am y rhai yr effeithiwyd arnynt gan ryfel ledled y byd, y rhai sydd wedi rhoi eu bywydau, sy'n dal i roi eu bywydau, sy'n dal i ddiodeff oherwydd rhyfel.

3. Ymddiheuriadau

Ymddiheuriadau gan Rheinalt Thomas, Caerdydd a Kathy Riddick, Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC, ymddiheuriadau gan Gyngor Sir Fynwy - Martyn Groucutt, Sharon Randall Smith a Sue Cave.

Mae'n bosibl y bydd Vicky Barlow, Sir y Fflint ymuno yn nes ymlaen yn y cyfarfod.

4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf, Zoom, 5 Mawrth 2024 (Sir Gaerfyrddin)

Aeth EE drwy'r cofnodion o ran cywirdeb. Cywiriadau fel a ganlyn:

- Cadarnhaodd JHR y mynychwyr canlynol o CYSAG Sir Gaerfyrddin - Jennifer Harding Richards, Gareth Morgan Adran Addysg, Alison Harding, Delyth Jones, Michael Thomas a Paul Davis.
- Cynrychiolydd Ceredigion yw Keith Evans ac nid Sir Gaerfyrddin
- Tudalen 2 – Enw Jennifer Harding Richards i'w gywiro.

Gyda'r cywiriadau uchod wedi eu gwneud, cynigiodd RG ac eiliodd KE fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r hyn a ddywedwyd yn y cyfarfod diwethaf. Bydd EE yn llofnodi'r cofnodion ac yn eu hanfon at AP i'w ffeilio.

5. Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod diwethaf.

Dim materion i'w trafod ers y cyfarfod diwethaf.

6. Cynhadledd CCYSAGauC

Adborth / Effaith

Soniodd EE am ba mor llwyddiannus oedd y gynhadledd a bod y siaradwyr yn ardderchog. Gofynnodd EE i LJ a TaS adrodd yn ôl.

Darparodd LJ yr adroddiad a ganlyn:

- Roedd cynhadledd Genedlaethol CCYSAGauC 2024 yn canolbwyntio ar ddathlu crefydd, gwerthoedd a moeseg yn y cwricwlwm i Gymru, ac fe'i cynhaliwyd ym Mhrifysgol Wrecsam ar 13 Mehefin 2024. Roedd yn llwyddiant ysgubol, gydag adborth cadarnhaol ar y diwrnod ac yn yr wythnosau dilynol, gan athrawon, aelodau CYSAG, darparwyr gweithdai a gwesteion eraill a wahoddwyd. Rhoddodd y diwrnod gyfleoedd dysgu proffesiynol sylweddol i aelodau CYSAG ac ymarferwyr CGM ledled Cymru. Cafwyd prif areithiau ysbrydoledig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Lynne Neagle, yr Athro Graham Donaldson ac Esgob Llandaf, y Gwir Barchedig Mary Stallard. Roedd y cynadledwyr yn gwerthfawrogi cael digon o gyfle i godi a thrafod materion sy'n wirioneddol bwysig i CGM ac i wneud cysylltiadau ystyrlon â chydweithwyr o'r un anian. Mae CCYSAGauC yn ddiolchgar i'w phartner, y Panel

Ymgynghori Cenedlaethol ar gyfer CGM yng Nghymru, PYCAG, am ei gefnogaeth. Yn gyffredinol, roedd yn ddiwrnod gwych, gydag adnoddau da, derbyniad da a nifer dda yn bresennol.

Camau nesaf

- Yn dilyn y digwyddiad undydd, mae recordiadau o'r areithiau wedi'u cyhoeddi ar wefan CCYSAGauC, ynghyd â rhaghybysseb ffilm CGM a ddangoswyd yn ystod y digwyddiad a recordiadau eraill, gan gynnwys lleisiau'r gynhadledd, sef adborth a dderbyniwyd yn y fan a'r lle. Mae pob un wedi cael ei e-bostio at glercod CYSAG i'w rhannu'n ehangach â CYSau a ChYSAGau a'u hysgolion. Roedd pecyn y gynhadledd yn cynnwys cyfres o seminarau ar-lein cyn y gynhadledd ac ar ôl y gynhadledd. Cynhaliwyd y seminarau ôl-gynhadledd tan ddiwedd mis Medi. Unwaith eto, roedd yr adborth o'r rhain yn hynod gadarnhaol. Mae'r cofnodion ar gyfer y rhain hefyd ar gael ar [wefan CCYSAGauC](#). Mae'r gynhadledd gyfan, gan gynnwys ei holl rannau amrywiol, wedi amlygu'r angen a'r awydd am gyfleoedd dysgu proffesiynol pellach ac am ddeialog broffesiynol. Mewn ymateb mae Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC ar hyn o bryd yn ystyried dyddiad addas ar gyfer cynhadledd ddilynol rywbryd y flwyddyn nesaf.
- Bydd John Mitson, Trysorydd CCYSAGauC yn rhoi adborth ar gostau'r gynhadledd pan fydd ar gael.

Agorodd EE y llawr i sylwadau:

RD: O safbwynt yr Is-lywydd, roeddwn yn meddwl ei fod yn ddiwrnod ardderchog, yn gyfle gwych i ymarferwyr a'r rhai sydd â diddordeb mewn CGM gyfrannu ac ennill mwy o brofiad. Hoffwn hefyd achub ar y cyfle i ddiolch i LJ, a TaS am eu gwaith caled.

JD: Sylw o'r sgwrs ar Zoom: Roedd yn ddiwrnod ardderchog a sylwadau ardderchog cyn ac ar ôl y gynhadledd hefyd.

PW: Roedd yn gynhadledd wych, mae'n debyg mai un o'r cynadleddau mwyaf proffesiynol i mi ei mynychu erioed. Gweithiodd aelodau PYCAG yn ogystal â Phwyllgor Gwaith CCYSAGauC yn galed iawn, mae angen diolch yn arbennig i LJ a TaS am y gwaith caled iawn ac i JD am hysbysebu. Cefais fy ngadael yn teimlo'n hynod gyffrous am CGM ac roedd y prif siaradwyr yn wych, yn cydnabod pwysigrwydd CGM yng Nghymru. Roedd yn wych clywed gan yr Athro Donaldson gan ei fod ar ddechrau'r daith wrth gynnwys CGM yn y cwricwlwm. Byddwn yn argymhell, os nad oeddech yn y gynhadledd, eich bod yn gwrando ar ei sgwrs.

Mae'n bwysig i ni gael y cynadleddau hyn, efallai'n fwy rheolaidd yn y dyfodol, yn cael eu cyflwyno gan bobl sydd â dealltwriaeth ddofn o'r weledigaeth ar gyfer ein CGM yn y dyniaethau, yn y Cwricwlwm i Gymru.

TS: Diwrnod da iawn, trefnus. Fel athro roedd yn ysbrydoledig cyfarfod â gweithwyr proffesiynol eraill. Roedd yn wych cyflwyno un o'r gweithdai gydag AP.

DG: Sylw ar sgwrs Zoom: Cytuno ag adborth PW a TS.

RB: Diolch i bawb a drefnodd. Roedd yn wych clywed gan yr Athro Donaldson. Mwynheais yn arbennig glywed yn fanwl gan ymarferwyr ar lawr gwlad a sut yr oeddent yn gweithredu'r cwricwlwm. Yn bersonol, nid oeddwn yn synhwyro unrhyw wir ymrwymiad gan Ysgrifennydd Cymru.

RJ: Sylw ar sgwrs Zoom: Croesawyd y sesiynau DP cyn ac ar ôl y gynhadledd a byddai unrhyw gyfleoedd pellach i gael sesiynau ar-lein i gefnogi ymarferwyr yn ddefnyddiol hefyd.

EE: Fel cadeirydd, hoffwn ailadrodd ein diolch yn fawr i'r rhai a fu'n ymwneud â threfnu'r gynhadledd. Yn amlwg, LJ a TaS yn fwy na neb, oherwydd eu bod wedi'u lleoli yn y Gogledd, ond i RS a chwaraeodd ran fawr hefyd yn nhrefniadaeth y gynhadledd. Gweithiodd y tair yma yn hynod o galed ac rydym yn ddiolchgar iawn i'r tair ohonynt am lwyddiant y gynhadledd a oedd, gobeithio, wedi codi proffil CGM.

7. Ffilm CGM CCYSAGauC

Rhoddodd RS y cyflwyniad canlynol:

- Mae CCYSAGauC wedi cynhyrchu ffilm broffesiynol yn sôn am bwysigrwydd a gwerth CGM o fewn Cwricwlwm Cymru ac Astudiaethau Crefyddol fel pwnc dewisol ar lefel TGAU a Safon Uwch. Nod y fideo yw dangos sut y gall CGM gyfrannu at ddatblygu dysgwyr egwyddorol uchelgeisiol, anturus a fydd yn aelodau gwerthfawr o gymdeithas.
- Mae'r gymdeithas wedi cynhyrchu'r ffilm ar gyfer ysgolion i'w defnyddio mewn sawl ffordd, mae'n addas i'w rhannu gyda disgyblion, athrawon, llywodraethwyr ac unrhyw un arall sydd â diddordeb yn y ddealltwriaeth o CGM.

- Diolchodd CCYSAGauC i Awen ac Ysgol Maes Garmon yn Sir y Fflint am eu cyfraniadau, ac i Fresh Gecko Productions am eu gweledigaeth a chynhyrchu'r ffilm. Yn ogystal, treuliodd LJ, TaS ac RS gryn amser yn cynllunio ac adolygu'r ffilm.
- Rhannwyd y ffilm gyda'r Pwyllgor.
- Bydd y ffilm yn fyw yn fuan ac ar gael ar wefan CCYSAGauC a chaiff ei dosbarthu'n eang i gysylltiadau CCYSAGauC gan gynnwys cydweithwyr PYCAG.
- Cafwyd trafodaeth am y ffilm yn y *chat* ac ar lafar. Ar y cyfan roedd y sylwadau'n hynod gadarnhaol, ond roedd rhai sylwadau'n cwestiynu cydbwysedd y ffilm ac a oedd digon o 'grefydd' yn gynnwysedig ynddi, e.e.:
 - Mae'r ffilm yn dda ond nid oes sôn am grefyddau unigol ac mae'n ymddangos bod y safiad yn seciwlar;
 - Teimlo ein bod yn gwanhau CGM;
 - Mae'n ddiffygiol, ac mae gennym gyfrifoldeb i bob ffydd grefyddol a sefydliad seciwlar;
 - y bachyn mwyaf yw'r cwestiwn sylfaenol, a oes ystyr i fywyd? Os gofynnwch y cwestiwn hwnnw, mae ymatebion crefyddol ac ymatebion anghrefyddol i hynny. Ni ddaeth hynny allan o gwbl yn ystod y ffilm; a
 - Dydw i ddim yn meddwl bod symbolau yn y cefndir yn ddigon da. Roedd angen ei fynegi'n gryf fel rhan o'r neges ganolog.

Ymatebodd TaS i'r sylwadau hyn drwy egluro bod yn rhaid i Swyddogion a oedd yn ymwneud â chynllunio a chynhyrchu'r ffilm ystyried yn ofalus iawn sut i fynd ati a phenderfynwyd mynd ati drwy gwestiynau mawr. Mae gan grefyddau ran enfawr i'w chwarae wrth ymateb i'r cwestiynau hyn. Ni roddwyd cynnwys pwnc iddo, ond dangosodd ystod o feysydd sy'n gyffrous i bobl ifanc y gellir eu harchwilio trwy draddodiadau crefyddol a thrwy argyhoeddiadau athronyddol. Bu grŵp o Swyddogion, gan gynnwys athrawon, yn rhan o gynnwys y ffilm hon.

Roedd y sylwadau cadarnhaol yn cynnwys:

- mae'r cynnwys wedi'i seilio ar y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig i'r dyniaethau;
- defnyddir cwestiynau trosglwyddadwy bachyn mawr y byddai gan ddysgwyr ddiddordeb ynddynt;
- casglu ymagwedd gysyniadol at ddysgu;
- ardderchog o ran cynefin, yn enwedig yr agwedd ddwyieithog a'r ffaith ei bod wedi'i ffilmio yng nghefn gwlad Cymru ac mewn ysgol Gymraeg;
- mae'n cofleidio'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn llwyr yn enwedig y 4 diben;
- yn cynorthwyo trafodaeth yn y dyfodol ac yn cynorthwyo athrawon yn yr ystafelloedd dosbarth;
- wedi'i chynhyrchu'n broffesiynol, a braf oedd gweld pobl ifanc yn ei chyflwyno;
- Roedd y cwestiynau ynddi yn ardderchog megis AI ac ati a byddant yn rhoi blas da i'r disgyblion;
- Mae disgyblion yn gwybod y byddant yn dysgu am grefydd mewn CGM gan mai dyna'n bennaf y maent yn ei wneud yn yr ysgol gynradd;
- byddai'n fideo da i'w ddangos ar ddechrau blwyddyn 7 i egluro i'r disgyblion pa fath o bethau fydd yn cael eu trafod o safbwynt crefyddol ac anghrefyddol yn y gwersi;
- Mewn pum munud, ni fyddwn yn gallu ymdrin â'r holl grefyddau gwahanol a gynrychiolir yng Nghymru a phob un o'r gwahanol fydolygon;
- roedd y fideo yn dal y cwestiynau athronyddol difyr hynny y mae fy myfyrwyr yn eu gofyn yn y dosbarth.
- bachyn da yw dechrau archwilio'r gwahanol grefyddau gyda myfyrwyr;
- diddorol iawn, roeddwn i wir yn hoffi sut roedd hi'n newid rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Daeth EE â'r drafodaeth i ben gan ddweud, er bod y cynnwys yn ddadleuol, y pwynt yw bod y ffilm wedi codi proffil CGM, ac os yw'n gweithio fel bachyn mewn ysgolion i ennyn diddordeb disgyblion mewn CGM, yna mae hynny i'w ganmol. Diolch enfawr i LJ a TS ac i'r rhai fu'n rhan o wneud y ffilm, a llongyfarchiadau i'r cwmni ffilm am gynhyrchiad proffesiynol iawn.

8. Materion Llywodraeth Cymru [LIC]

Recriwtio AGA – cyfarfodydd gyda Kevin Palmer

Rhoddodd RS y diweddariad canlynol gan Lywodraeth Cymru:

- Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd gyda Kevin Palmer (KP) a Mark White (MW) o Lywodraeth Cymru ynghylch myfyrwyr AGA a'r niferoedd sy'n gwneud TAR, Astudiaethau Crefyddol neu

gyfwerth. Roedd y prif gyfarfod pwysicaf ar 7 Hydref 2024. Roedd LJ, AP, RS a PW yn bresennol o Gymdeithas CYSAGau Cymru.

Cyn y cyfarfod hwnnw, cafwyd chwe awgrym o feysydd gwahanol y gallem edrych arnynt i helpu i gefnogi athrawon ar ddechrau eu gyrfa ac i gynyddu niferoedd i TAR. Casgliadau oedd bod tri maes clir y gellid eu datblygu gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, CCYSAGauC a PYCAG:

- Y cyntaf yw datblygu rhyw fath o gyrsiau byr, e.e. sesiynau Gwyll i gefnogi arbenigwyr CGM ar ddechrau eu gyrfa ochr yn ochr ag unigolion nad ydynt yn arbenigwyr sy'n cyflwyno CGM mewn lleoliadau cynradd neu uwchradd. Ar ôl y cyfarfod, cynigodd aelodau CCYSAGauC a fynychodd y cyfarfod syniadau am gyrsiau byr i gefnogi ein sesiwn addysgu bresennol:
 - Cwrs o'r math dyniaethau o amgylch dull dysgu seiliedig ar ymholi ar gyfer ymarferwyr cynradd
 - Cwrs tebyg ar gyfer ymarferwyr uwchradd
 - Gwerth cydweithio traws-gyfnod gyda CGM
 - Sut i wella'ch sgiliau a'ch gwybodaeth bynciol, cwrs a fyddai'n cefnogi athrawon yn y modd y gwnaethant ymchwilio a chreu eu hymchwil gwybodaeth, yn hytrach na rhannu gwybodaeth â nhw.
 - Cynllunio ar gyfer dilyniant
 - CGM gwrthrychol, beirniadol a lluosog
- Roedd yr ail faes yn ymwneud â'r cwrs TGAU newydd a oedd ar y gweill yn 2025. Cydnabuwyd gan aelodau Llywodraeth Cymru, CCYSAGauC a PYCAG bod rhai meysydd penodol lle byddai angen cymorth pwrpasol a phenodol iawn ar athrawon:
 - Yr asesiadau di-arholiad, rhywbeth sy'n hollol newydd i'r proffesiwn addysgu
 - Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol, sy'n cael eu cryfhau yn y gofynion TGAU newydd
 - Y pynciau sy'n newydd i'n hymarferwyr TGAU, megis rhai o'r theodiciaethau athronyddol sydd o fewn y TGAU newydd a rhyddid mynegiant crefyddol, y mae athrawon wedi'u cael yn hanesyddol yn heriol i'w haddysgu
- Y trydydd maes a'r prif faes a drafodwyd oedd cynllunio'r cwricwlwm, a deall sut mae gwahanol ysgolion, cynradd ac uwchradd, cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg ledled Cymru yn dylunio eu cwricwlwm. Y syniad yma oedd recriwtio grŵp bach o arbenigwyr CGM i greu panel trafod i wybod beth sy'n digwydd ar hyn o bryd, i weld lle gallwn ni gefnogi yn y maes hwnnw. Mae hyn yn cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru.
- Y bwriad oedd cynnal y cyfarfod nesaf gyda KP ar 21 Tachwedd 2024 i barhau i ddatblygu'r syniadau hyn a chanolbwyntio hefyd ar sut y gallwn gynyddu'r nifer sy'n derbyn AGA. Yn anffodus, oherwydd afiechyd bu'n rhaid gohirio'r cyfarfod hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith ymchwil sylweddol ar y nifer sy'n derbyn AGA ar hyn o bryd, felly mae'n fater o gadw llygad nes bydd Llywodraeth Cymru yn dod yn ôl atom a sut y gallwn gefnogi i gynyddu ein cohort athrawon.

VB: Diolchodd i'r grŵp am y rhestr flaengar, ddiddorol a defnyddiol hon.

Cyfarfodydd tymhorol arferol gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru (LIC).

Adroddodd LJ y canlynol:

Mae dau gyfarfod wedi bod gyda Llywodraeth Cymru ers y prif gyfarfod diwethaf.

- Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ddydd Llun 20 Mai 2024. Roedd yr eitemau a drafodwyd yn cynnwys adnoddau dysgu proffesiynol, gwefan Canolfannau Addysg Grefyddol, aelodaeth CCYSAGauC, cymwysterau ar gyfer pynciau gorfodol, diweddariad ar sgwrs AGA gyda KP, cynhadledd CCYSAGauC a diweddariad byr ar Adnodd, sef y grŵp sy'n goruchwyllo'r ddarpariaeth o adnoddau addysgol ac sy'n comisiynu adnoddau i gefnogi addysgu a dysgu'r Cwricwlwm i Gymru.
- Cynhaliwyd yr ail gyfarfod ddydd Llun 1 Gorffennaf 2024, a oedd yn gyfarfod y gofynnodd CCYSAGauC i Lywodraeth Cymru amdano. Roedd Lloyd Hopkin (LH) yn bresennol o Lywodraeth Cymru, ynghyd â chydweithwyr eraill o Lywodraeth Cymru. Roedd y cyfarfod hwn yn ymwneud ag adroddiad y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru, ym Mhrifysgol Bangor, ar y ddarpariaeth CGM mewn ysgolion yn dilyn ei gyflwyniad yn y Grŵp Seneddol hollbleidiol ar Ffydd a Chred, a gadeiriwyd gan Darren Miller ym mis Mai 2024. Cododd cydweithwyr CCYSAGauC a PYCAG eu pryderon am yr adroddiad gyda LIC, gan gynnwys cwestiynau ynghylch trylwyrdd academiaidd yr adroddiad ac ansawdd yr ymchwil a'r diffyg dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru a CGM yn yr adroddiad hwnnw a sampl bach iawn yr ymatebwyr, sef 43 o ymarferwyr ar draws Cymru. Cytunodd cydweithwyr LIC, oherwydd maint sampl yr ymchwil, ei fod yn rhy fach i ddod i unrhyw gasgliadau

defnyddiol neu wneud dyfarniadau ehangach. Cytunwyd yn y cyfarfod bod y materion a amlygwyd yn yr adroddiad yn rhai hanesyddol ac yn ymwneud ag AG, yn hytrach nag CGM, ac nad oedd yn ddefnyddiol. Dywedodd LIC eu bod yn mynd i'w drosglwyddo i'w tîm ymchwil academaidd i'w adolygu. Dywedodd LIC eu bod yn pryderu am y rhaniad sy'n cael ei greu oherwydd agweddau gwahanol at ymagwedd athronyddol y Cwricwlwm i Gymru a dywedodd cydweithwyr LIC nad yw dull cynnwys trwm o gynllunio'r cwricwlwm yn gyson â gweledigaeth nac ysbryd y Cwricwlwm i Gymru. Mae swyddogion CCYSAGauC wedi gofyn am gyfarfod dilynol gyda chydweithwyr LIC ond yn dal i aros am gadarnhad o ddyddiad.

LB: Gan fod CGM yn bwnc cwricwlwm newydd mae'n bwysig croesawu ymchwil, sy'n bwysig i ni allu monitro a gwybod sut mae CGM yn datblygu a beth mae ymarferwyr yn ei feddwl amdano.

PW: Croesewir ymchwil ond mae angen sicrhau trylwyredd academaidd yr ymchwil.

Dysgu proffesiynol ar gyfer CGM

Adroddodd LJ y canlynol:

- Fel rhan o'r prosiect dysgu proffesiynol y bu CCYSAGauC yn gweithio arno gyda Llywodraeth Cymru, mae rhestr chwarae'r Llywodraethwyr wedi cael y golau gwyrdd ond yn dal i aros am ei chyhoeddi oherwydd rhesymau y tu allan i reolaeth CCYSAGC. Gobeithiwn y cyhoeddir hon yn fuan. Rydym yn dal i gynnal trafodaethau gyda chydweithwyr perthnasol yn LIC ynghylch cyhoeddi rhestrau chwarae eraill, gan gynnwys y rhestrau chwarae llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Mae'n ymddangos bod her wahanol o ran y rhestrau chwarae hyn ac mae'r pyst gôl i'w gweld yn newid yn gyson, ond rydym yn parhau i fod yn obeithiol y cânt eu cyhoeddi yn y dyfodol agos.
- Rydym hefyd mewn trafodaethau ar hyn o bryd ynghylch a ellir cynnwys dolen i wefan CCYSAGauC yn adran adnoddau dysgu proffesiynol Hwb.

LB: Mae 1.4 miliwn o bobl, yn y cyfrifiad diweddar, yn dweud eu bod yn Gristnogion. Dyma brif grefydd Cymru. Yn fy mhrofiad o'r seminarau dysgu proffesiynol, rwyf bob amser wedi mynegi'r pryder bod y pwyslais ar grefyddau eraill heblaw Cristnogaeth.

LJ: Mae recordiadau o seminarau'r gynhadledd ar wahân i'r rhestrau chwarae DP hyn.

PL: Gyda dau o'r CYSAGau yr wyf yn eu cefnogi, mae Llywodraethwyr yn faes i'w ddatblygu. Rydym wedi bod yn aros am restr chwarae'r Llywodraethwyr ers amser maith gan nad ydym am ailadrodd gwaith sydd eisoes wedi'i gynnwys yn y rhestr chwarae. Bydd yn ddefnyddiol o ran darparu negeseuon cyson ledled Cymru.

Rwy'n canmol y pum rhestr chwarae bresennol yn uchel ac wedi bod yn eu hyrwyddo yn ein hysgolion ac mae'n werth gwrando'n feirniadol arnyn nhw.

Ymddiheurodd LJ am y fath oedi, ond mae wedi bod gyda thîm Hwb ers blwyddyn. Cyn gynted ag y daw allan, bydd LJ yn anfon y ddolen at holl glercod CYSAG.

9. Prosiect ymchwil CCYSAGauC

Adroddodd TaS y canlynol:

- Mae menter ymchwil yn cael ei chynnal gan CCYSAGauC ac yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Mae CCYSAGauC yn cydnabod gwerth ymchwil o ansawdd, a adolygir gan gymheiriaid, mewn crefydd, gwerthoedd a moeseg a gall weld y berthynas briodol rhwng ymchwil a datblygu'r cwricwlwm sydd wedi bod yno reit ers dechrau'r cwricwlwm i Gymru, felly mae'r berthynas honno'n hanfodol.
- O ganlyniad i sgysiau gyda Phwyllgor Gwaith CCYSAGauC dros y misoedd diwethaf, penderfynwyd mai dyma'r amser iawn ar gyfer prosiect ymchwil sy'n canolbwyntio ar CGM yn y Cwricwlwm i Gymru ac yn edrych ar sut mae'n gwreiddio yn ein hysgolion a'n lleoliadau yn genedlaethol.
- Rydym am dynnu ar arbenigedd ymchwil Canolfan San Silyn yn Wrecsam er mwyn datblygu arolwg ymchwil at y diben hwn. Ni fydd unrhyw gost i CCYSAGauC. Mae grŵp CCYSAGauC wedi'i anfon gan y Pwyllgor Gwaith sy'n cynnwys TaS a LJ, y ddwy o Ganolfan San Silyn yn Wrecsam, RS, Is-Gadeirydd CCYSAGC ac Ymgynghorydd Castell-nedd a Phort Talbot, Paula Webber, Cadeirydd PYCAG, sy'n gweithio ym maes AGA ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd ac AP, ysgrifennydd CCYSAGC, ac athrawes ysgol uwchradd yng Nghaerdydd.
- Mae'r grŵp hwn wedi creu arolwg drafft, sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd gan nifer o ymarferwyr. Pwrpas yr arolwg yw cael cipolwg ar brofiad ymarferwyr o newid cwricwlwm a'u hymgysylltiad ag ef, gan ganolbwyntio ar CGM. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy arolwg ar-lein, ansoddol yn bennaf, o ymarferwyr ledled Cymru, ac mae'n mynd i adlewyrchu amrywiaeth o leoliadau addysg. Rydym yn canolbwyntio ar wrando'n benodol ar yr athrawon a'r ymarferwyr eu hunain. Gobeithiwn anfon mwy o wybodaeth a dolenni arolwg yn fuan, i

GYSAGau ac i bob ymgynghorydd yng Nghymru. Gobeithiwn y byddwch yn ein helpu i geisio cael cymaint o ymatebion â phosibl trwy gysylltu'n uniongyrchol â'ch ysgolion a'ch lleoliadau a'u hannog.

- Pwrpas yr arolwg hwn yw gwneud gwahaniaeth ymarferol. Mae'n amser hollbwysig wrth gyflwyno'r cwricwlwm, rydym am glywed mewn ffordd anghyfeiriol, am brofiadau ymarferwyr yng Nghymru fel y gallwn gael gwell dealltwriaeth o'r ffordd orau o'u cefnogi. Gobeithiwn y bydd y canfyddiadau o gymorth ar lefel leol a fydd yn cynnwys adroddiadau iaith glir ac erthyglau cyhoeddedig a adolygir gan gymheiriaid i'w rhannu'n eang.

EE: Mae'n bwysig iawn ein bod yn gwbl ymwybodol o'r sefyllfa yng Nghymru a bod hynny'n hysbys iawn ar draws pedair gwlad y DU, ac mewn fforymau Ewropeaidd hefyd.

VB: Syniad gwych. Cadarnhaol iawn. Edrych yn gyffrous, bydd yn ddefnyddiol, beth yw'r amserlen?

TaS: Ar yr hwyrfa ddechrau tymor y gwanwyn.

PL: Mae croeso mawr, ai ymateb yw hwn i adroddiad y Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol yng Nghymru? Pryderu am hyrwyddo, gan y bydd dau arolwg. A ydym am annog y ddau?

TaS: Nid yw'r arolwg hwn yn ymateb i ymchwil Bangor. Mae nodau'r ymchwil hwn a'r cynnwys yn wahanol iawn. Nid oes unrhyw wrthdaro.

KE: Yn gefnogol iawn i'r cynnig.

JHR: Pa brifysgolion sy'n ymwneud â'r gymeradwyaeth foesebol ac a fydd yn cael ei rhannu â CYSAGau.

TaS: Mae gan gymeradwyaeth foesebol ganllawiau cyhoeddedig llym. Canolfan San Silyn sy'n arwain y prosiect hwn, a bydd Prifysgol yr Esgob Grosseteste a Phrifysgol Met Caerdydd yn cymryd rhan. Gellir rhannu'r canllawiau moesebol.

PW: Mae Met Caerdydd yn defnyddio [Canllawiau Bera](#) ar gyfer y gymeradwyaeth foesebol.

RB: A ydych wedi ystyried ymestyn eich ymchwil i gael golwg disgybl ar y cwricwlwm cenedlaethol newydd yn CGM? Dechrau meddwl amdano a'i drafod yng Nghonwy gyda chefnogaeth y Pennaeth Addysg.

TaS: Mae'r hyn yr ydych yn ei wneud yng Nghonwy yn gyffrous. Y rheswm pam y dewisom ymarferwyr yw oherwydd ei fod yn gyfnod hynod heriol, ac mae angen inni ganfod y ffordd orau o gefnogi ymarferwyr sy'n hanfodol ar gyfer gwneud i'r Cwricwlwm i Gymru weithio.

10. Cymwysterau

Manyleb ddrafft TGAU Astudiaethau Crefyddol

Cafwyd yr adroddiad canlynol gan Chris Owens, Swyddog Pwnc, CBAC ar gyfer TGAU:

- Mae manyleb ddrafft TGAU newydd ar wefan CBAC. Mae ymatebion a dderbyniwyd oddi wrth Benaethiaid AG ac Ymgynghorwyr ac ati wedi'u hystyried. Mae CBAC yn dal i aros am gymeradwyaeth gan Cymwysterau Cymru (QW). Y broses yw bod CBAC wedi derbyn y meini prawf y cytunwyd arnynt gan Cymwysterau Cymru ac mae CBAC wedi llunio manyleb yn seiliedig ar y gofynion, sydd bellach wedi'i chyflwyno i Cymwysterau Cymru. Cafwyd cyfres o gyfarfodydd dilynol am y cynnwys gwirioneddol. Dylid cymeradwyo'r fanyleb a'r deunyddiau asesu enghreifftiol, gan gynnwys papurau arholiad enghreifftiol, cyn diwedd mis Rhagfyr. Y bwriad gwreiddiol oedd y byddai'r deunyddiau enghreifftiol, a'r fanyleb yn mynd allan ym mis Rhagfyr ac yna sicrhau cydweithwyr y byddai canllawiau manwl i athrawon yn cael eu cynhyrchu fel rhan o'r fanyleb newydd. Bydd CBAC yn mynd i'r afael â materion mewn dau ddigwyddiad DP cerdded drwedd rhad ac am ddim, sydd bellach yn cael eu gohirio tan yn ddiweddarach ym mis Rhagfyr pan fydd y fanyleb yn cael ei rhyddhau. Yn nhymor y gwanwyn, Chwefror – Mawrth, bydd 12 digwyddiad hyfforddi DP Cenedlaethol ar gyfer holl athrawon AC yng Nghymru. Mae'n bwysig bod cydweithwyr yn gwybod y bydd yn rhaid iddynt gael eu cofrestru gan eu penaethiaid yn y lleoliad lle mae'r digwyddiadau hynny'n mynd i ddigwydd. Bydd y 12 digwyddiad hynny yn cynnwys rhywfaint o ganllawiau manwl am yr asesiad di-arholiad. Yn y fanyleb newydd bydd dau bapur arholiad ysgrifenedig, a bydd dau ddarn o Asesu Di-arholiad, gwaith cwrs, y mae'n rhaid i'r myfyrwyr eu cwblhau. Daw'r fanyleb i rym ym mis Medi 2025 gyda'r flwyddyn asesu gyntaf yn 2026 ac yna'r ail flwyddyn asesu iawn yn 2027.

PW: A yw'r hyfforddiant ar gael i ddarlithwyr AGA ac i fyfyrwyr AGA?

CO: Ni fydd y digwyddiad PL ar gael i diwtoriaid TAR. Bydd lle ar gyfer ymgynghorwyr nad ydynt yn athrawon. Mae cyfyngiad ar niferoedd. Byddai'r myfyrwyr AGA ar leoliad mewn ysgolion yn cael eu gwahodd.

DG: A ellir ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cwestiynau ar gyfer y seminar oherwydd yr oedi yn y seminar ym mis Rhagfyr?

CO: Os hoffai unrhyw un anfon unrhyw gwestiynau ataf drwy e-bost, fe wnaf fy ngorau i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn y sesiwn holi ac ateb.

RJ: A fydd y canllawiau manwl i athrawon yn cael eu rhyddhau ar yr un pryd â'r deunyddiau asesu enghreifftiol neu a fydd y rhain yn ddiweddarach? Mae llawer o bryder hefyd ymhlith ein hymarferwyr uwchradd a fydd y deunydd Cymraeg yn cael ei ryddhau ar yr un pryd â'r deunydd Saesneg?

CO: Fel swyddog pwnc, rwyf wedi ymrwmo i gynhyrchu deunyddiau'n ddwyieithog. Er enghraifft, bydd deunyddiau dysgu cyfunol newydd yn cael eu rhoi ar wefan CBAC, yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac am y tro cyntaf, bydd modd eu golygu, felly bydd canolfannau'n gallu golygu'r adnoddau hynny ar gyfer eu canolfannau eu hunain. Dylai fod gan CBAC ddeunyddiau dwyieithog ar gyfer y fanyleb, y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol a'r Canllawiau Addysgu.

JHR: O ystyried yr oedi o ran cymeradwyo'r fanyleb a'r oedi o ran dysgu proffesiynol a oes unrhyw debygrwydd y bydd yr oedi ar gyfer Astudiaethau Crefyddol y tu hwnt i fis Medi'r flwyddyn nesaf?

CO : Mae'n bwysig nodi bod amserlen DP ymlaen llaw ar gyfer y gwanwyn ar y trywydd iawn. Dim ond pythefnos yn hwyr mae'r ddau ddigwyddiad cerdded drwodd. Mae CBAC wedi ymrwmo i Astudiaethau Crefyddol fod yn barod ar gyfer lansiad cam un ym mis Medi 2025 oherwydd bod angen lansio Astudiaethau Crefyddol ar yr un pryd â Hanes a Daearyddiaeth.

JHR: Mae penaethiaid adran yn wirioneddol bryderus am y cyfnod byr. Mae'r daith gerdded drwodd bellach yn cael ei gohirio am bythefnos, ac mae'n cael effaith ar athrawon, eu lles a'u llwyth gwaith.

CO: Rwy'n meddwl pan fydd pobl yn edrych ar y fanyleb bod llawer iawn o gynnwys ynddo sy'n debyg i'r hyn y bydd cydweithwyr yn ei wneud ar yr hyn a fydd wedyn yn hen fanyleb. Ar y safle dysgu cyfunol mae deunyddiau y gellid eu defnyddio o hyd gyda'r cymhwyster newydd, rwy'n cynnal ymarfer mapio o'r ddau. Bydd CBAC yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi'r athro dosbarth a sicrhau bod rhaglen dreigl o gefnogaeth i'r Asesu Di-arholiad hefyd.

RB: Gallaf ddeall yr angen i godi hyn yn gyflym er mwyn creu cydraddoldeb â phynciau eraill y dyniaethau. Cawsom drafodaeth hir gyda'n CYSAG am hyn yr wythnos diwethaf. Y man cychwyn oedd y gostyngiad yn y nifer a oedd yn sefyll TGAU cyn hyn. Y ddau beth a ddaeth i'r amlwg fwyaf oedd bod ehangder enfawr i'w drin yn y cwricwlwm a hefyd os dechreuwn ar sail y cwricwlwm cenedlaethol newydd, sef crefydd, gwerthoedd a moeseg, nid astudiaethau crefyddol yw'r athroniaeth y tu ôl i hynny, mewn gwirionedd. Ac felly roedd pryder, oherwydd eich bod yn dilyn y llwybr hwnnw, nad yw'n cyd-fynd yn briodol â'r hyn sy'n digwydd yn y cwricwlwm yn y cyfnodau allweddol eraill, ac felly byddai hynny'n effeithio ar y ffordd y mae pobl yn cyflwyno yng Nghyfnod Allweddol Tri. Roedd trafodaeth a phryder aruthrol yn ein CYSAG yn ei gylch.

CO: Rwy'n meddwl ein bod wedi gorfod gwneud y pwynt hwn sawl gwaith eisoes fod y TGAU Astudiaethau Crefyddol yn gymhwyster academiaidd. Nid yw yn sicr yn ddilyniant naturiol o'r CGM. Byddai CGM yn cael ei ddysgu mewn gwersi AG gorfodol, os mynnwch, ym mlynnyddoedd 10 ac 11. Yr hyn rydym yn ei gynnig yw TGAU Astudiaethau Crefyddol academiaidd. Mae'r pynciau'n anochel yn drwm eu cynnwys, os byddwn yn cyflwyno cymhwyster i Cymwysterau Cymru nad oes ganddo ddigon o gynnwys, caiff ei wrthod. Rydym yn deall, mewn rhai ffyrdd, fod diffyg cysylltiad rhwng yr hyn sy'n digwydd yng Nghyfnod Allweddol Tri o fewn y cwricwlwm newydd a chyda'r TGAU newydd. O ran y fanyleb newydd ar gyfer TGAU, bydd yn sylfaen dda ar gyfer UG a Safon Uwch. Byddaf yn adrodd yn ôl gyda'ch adborth.

LB: Ar gyfer TGAU a Safon UG a Safon Uwch mae'n bwysig cael mwy o gynnwys oherwydd bydd disgyblion yn gwneud cais i brifysgolion, felly disgwylir i'r lefel academiaidd fod yr un fath yng Nghymru ag yn Lloegr. Soniasoch am adnoddau golygu ar gyfer eich canolfannau eich hun, a yw hyn yn berthnasol i'r papurau ysgrifenedig a'r gwaith a asesir hefyd?

CO: Rydym ni'n cael trafodaeth. Bydd canolfan yn gallu golygu'r deunyddiau dysgu cyfunol newydd er mwyn iddynt allu addasu'r deunyddiau i ddangos sut y maent am eu defnyddio. Pan fydd gennym gymeradwyaeth ar yr hyn y gallwn ei wneud gyda'r Aseidiadau Di-arholiad, bydd yn rhaid inni benodi, er enghraifft, uwch arholwr newydd, uwch gymedrolwr newydd ar gyfer y cyrsiau hynny. O fis Ionawr ymlaen byddwn yn edrych yn fanwl ar sut i gefnogi cydweithwyr. Bydd digwyddiadau DP yn rhedeg o fis Chwefror i fis Mawrth, a bydd llawer o ffocws ar yr Aseiad.

PW: Roedd CGM, pan gafodd ei ysgrifennu yn y cwricwlwm i fod i fod yn bwnc yn yr un modd â hanes, daearyddiaeth, astudiaethau cymdeithasol ac ati. Rwy'n bryderus iawn bod Byrddau Arholi neu CC yn awgrymu nad yw'n bwnc academiaidd, ei fod yn mynd i danseilio CGM yn y Cwricwlwm i Gymru, ac mae'n mynd i atal y dilyniant o 3 i 16, y cafodd ei ysgrifennu ar ei gyfer.

Ni ddylai byth fod datgysylltiad â'r pynciau hynny. Mae CGM yn academiaidd a dylai fod â'r un statws ag unrhyw bynciau eraill yn y cwricwlwm.

PL: Yn CYSAG Conwy roedd athro yn edrych ar fanyleb EDUCAS ac yn ei gymharu â manyleb CBAC. Mae'n ymddangos bod manyleb EDUCAS yn agosach at grefydd, gwerthoedd a moeseg na'r fanyleb astudiaethau crefyddol o fewn CBAC ac mae ychydig yn ysgafnach ar y cynnwys. A yw'r fanyleb yn adlewyrchu mwy o gyfeiriad CC ar gyfer Astudiaethau Crefyddol neu o safbwynt CBAC am werthoedd a moeseg grefyddol?

CO: Rhaid i CBAC ddilyn y meini prawf y mae Cymwysterau Cymru wedi'u creu. Rwy'n meddwl yn anochel, oherwydd y cwricwlwm newydd yng Nghymru, yn sicr ar lefel TGAU, y bydd rhaniad o'r ffyrdd o ran TGAU yng Nghymru, a'r TGAU o fewn EDUCAS. Ymddiheuraf i PW os rhoddais yr argraff nad yw CGM yn academiaidd. Fel cyn-bennaeth AG, mae AG yn academiaidd iawn. Yr hyn rwy'n ei ddweud yw, a oes rhaniad rhwng CGM, yn is i lawr yr ysgol, ac yna beth fyddai'r AG gorfodol, ac yna'r cwrs TGAU Astudiaethau Crefyddol yr ydym wedi'i gyflwyno i CC. Roedd CC yn glir iawn mai'r hyn yr oeddem yn ei gyflwyno oedd TGAU Astudiaethau Crefyddol. Rwy'n ymwybodol iawn o'r sylwadau y mae pobl wedi'u gwneud. Bydd CBAC yn gweithio'n galed i wneud yr adnoddau mor ddefnyddiol â phosibl i athrawon. Diolchodd EE i CO.

GWEITHREDU: Os hoffai unrhyw Gynghorydd gael dolen i'r ffurflen archebu ar gyfer y digwyddiadau wyneb yn wyneb gan CBAC, anfonwch e-bost at libby.jones@wrexham.gov.uk.

Ymgynghoriad Cymwysterau Cymru (CC) ar y cynnig ehangach 14-16

Rhoddodd LJ yr adroddiad a ganlyn:

- Rhyddhaodd CC ymgynghoriad ar y cymwysterau yn y cynnig ehangach 14 i 16, y dyddiad cau ar gyfer ymatebion oedd 23 Hydref 2024. Roedd yn seiliedig ar y meini prawf drafft ar gyfer y cymwysterau hynny. Oherwydd y terfyn amser tynn, bu'n rhaid i swyddogion CCYSAGauC ddrafftio ymateb yn gyflym. Nid oedd amser i'w rannu gyda'r Pwyllgor Gwaith na'r CYSAGau. Fodd bynnag, derbyniodd holl glerc cod CYSAG hysbysiad o'r ymgynghoriad hwn i'w rannu gyda'u haelodau a'u hysgolion. Yn ymateb swyddogion CCYSAGauC, un o'r prif faterion a godwyd oedd enw un o'r unedau yn y gyfres sgiliau - 'Ffyddau a Bydolygon yn y Gymuned'. Teimlai swyddogion CCYSAGauC fod hyn yn broblematic oherwydd nad oedd yn adlewyrchu iaith y Cwricwlwm i Gymru, na'r iaith o fewn Deddf Cwricwlwm ac Asesu Cymru 2021. Cafwyd awgrym y gellid ei newid i 'Crefydd a Chredoau yn y Gymuned'. Teimlwyd y byddai'r teitl hwn yn fwy tebygol o alluogi dysgwyr i archwilio cysyniadau crefydd a chred, yn ogystal ag ymgysylltu â chrefyddau a chredoau a datblygu parch atynt, gan gynnwys argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol o bobl a grwpiau yn eu cymuned yn unol â'r ddeddf gyfredol.
- Mae'r gyfres sgiliau yn cynnwys nifer o unedau gwahanol, a byddant ar gael i'w haddysgu gyntaf ym mis Medi 2027. Bydd yr unedau'n cwmpasu lefel mynediad un, dau a thri, ac yna achrediad cymhwyster lefel un a lefel dau. Gall pob math o ddysgwyr eu cyrchu.
- Mae pedwar teitl yn y gyfres sgiliau a fyddai'n berthnasol i CGM gorfodol.
 - Yr un a elwir ar hyn o bryd yn Ffydd a Bydolygon yn y Gymuned
 - Gwerthoedd am Oes
 - Dewisiadau Moesegol
 - Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae yna unedau eraill a allai o bosibl gynnig cyfleoedd ar gyfer addysgu CGM [dyma'r ddolen i edrych ar y gyfres sgiliau ar yr unedau hynny](#).

Mae prosiect personol hefyd ynghlwm wrth y gyfres hon lle gall dysgwyr ddewis prosiect personol sy'n gysylltiedig â CGM. Dyna gyfle arall ar gyfer CGM gorfodol.

MM: Dau gwestiwn 1) O ran cymhwyster Agored Cymru, Archwilio Bydolygon, a fydd yna lawer o drawsgroesi gyda'r cymhwyster newydd fel y gallwn ddefnyddio'r adnoddau sydd gennym ar gyfer Agored Cymru? 2) Faint o'r unedau hyn y mae ysgolion yn debygol o'u cynnal neu sydd â'r opsiynau ar eu cyfer? Os mai dim ond pedwar opsiwn sydd ganddynt, a ydynt mewn gwirionedd yn mynd i ddewis yr opsiynau sy'n ymwneud â CGM yn unig?

LJ: I ateb yr ail gwestiwn, rhagwelir y bydd ysgolion yn debygol o ddarparu'r gyfres sgiliau hon o fewn eu darpariaeth bresennol ar gyfer Bagloriaeth Cymru. Yn amlwg, mae'r holl unedau hyn yn ddewisol, felly gall ysgolion ddewis pa rai y maent am eu darparu, a gallai hynny fod yn seiliedig ar eu harbenigedd mewn ysgolion, efallai y bydd rhai ysgolion yn ceisio rhoi dewis i ddysgwyr. Felly, nid yw'n warant y bydd yr unedau sy'n ymwneud â CGM yn cael eu cynnig ym mhob ysgol ac y bydd pob dysgwr rhwng 14 ac 16 oed yn cael yr unedau hynny. Yn amlwg i'r ysgolion hynny

sydd naill ai ddim yn darparu'r unedau hynny neu nad yw dysgwyr yn dewis yr unedau hynny, hyd yn oed os cânt eu darparu, y cwestiwn yw, sut mae'r ysgol wedyn yn darparu CGM gorfodol yn ychwanegol at yr hyn sydd ganddynt eisoes ar eu hamserlen? Bydd cwestiwn 1 yn cael ei ateb yn yr eitem nesaf ar yr agenda.

RS: Yr her yw bod ystod eang o opsiynau uned, nid ydym yn gwybod sut mae ysgol yn mynd i ddewis a dethol. Felly hyd yn oed pe baent yn gwneud yr holl unedau gorfodol ar gyfer pob dysgwr, efallai na fydd yn golygu o reidrwydd ei fod yn cwmpasu CGM gorfodol, fel y disgrifir yn y canllawiau 14 i 16 yn y Cwricwlwm i Gymru a Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Mae llawer o gwestiynau o hyd.

Agored Cymru ac NCFE

Adroddodd LJ:

- Y cofrestriad olaf ar gyfer cymhwyster Archwilio Bydolygon Agored Cymru yw 31 Hydref 2027 a bydd tystysgrifau'n cael eu dyfarnu hyd at 2029. Rydym yn ymwybodol y bydd rhai ysgolion yn dewis dilyn y llwybr hwn er mwyn llenwi'r bwch hwnnw hyd nes y daw'r gyfres sgiliau allan. Nid yw maint y gorgyffwrdd rhwng Agored Cymru a'r unedau cysylltiedig â CGM yn y gyfres sgiliau yn hysbys. Fodd bynnag, mae Agored Cymru yn gwneud cais i ysgrifennu'r unedau sgiliau. Os ydynt yn llwyddiannus yn hynny o beth, byddwn yn dychmygu y byddai rhywfaint o orgyffwrdd o ran cynnwys, ond byddai'n edrych yn wahanol oherwydd bod maint yr uned ar gyfer y gyfres sgiliau yn llawer llai nag unedau presennol cymhwyster Archwilio Bydolygon Agored Cymru.
- Y cymhwyster arall i'w grybwyll yn yr ysgol yw'r cymhwyster Cydraddoldeb ac Amrywiaeth gan NCFE. Y cofrestriad olaf ar gyfer y cymhwyster hwnnw yw 30 Medi 2026 a dyfernir tystysgrifau hyd at 2028.

MM: Bydd cymhwyster etifeddol ar gyfer Agored Cymru wrth i'r cymwysterau newydd ddechrau yn 2027 a gallwn barhau i gofrestru ar gyfer Agored Cymru yn 2027 felly bydd blwyddyn o groesi.

11. Estyn: Fframwaith arolygu newydd – 'Beth rydyn ni'n ei arolygu' a 'Sut rydyn ni'n arolygu'

Dywedodd EE fod ESTYN wedi cynhyrchu dwy ddogfen a anfonwyd gyda phapurau'r agenda:

- 1) Arolygu ar gyfer y dyfodol, 2024 2030 sut rydym yn arolygu, cynnal ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion
- 2) Yr hyn rydym yn ei arolygu 2024 i 2030, cynnal ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion.

12. Adroddiad gan y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2024 (Rachel Samuel)

Dywedodd RS fod y Pwyllgor Gwaith wedi cyfarfod ar 2 Hydref 2024 a chanolbwyntiodd ar y materion a drafodwyd yn y cyfarfod heddiw.

13. Diweddariadau:

MAGC (Paul Morgan)

- Gweler eitem 14.

CBAC (Christopher Owens)

- CO i rannu gwybodaeth gyda LJ i'w ddsbarthu ymlaen.

REC (Kathy Riddick)

- LJ: Mae REC wrthi'n trafod yr adolygiad o'r cwricwlwm sy'n digwydd yn Lloegr. TaS, PW ac LJ yn cefnogi REC yn y drafodaeth hon.

EFTRE (Phil Lord)

- Bu farw cadeirydd blaenorol EFTRE Lesley Prior ym mis Ebrill ac mae teyrnged ar wefan EFTRE. Caeirydd newydd EFTRE yw Burt Robin, athro Addysg Grefyddol yng Nghyfadrn Diwinyddiaeth Gatholig Prifysgol Bonn. Mae'n frwd dros addysgu ac ymchwilio i brosesau dysgu ym maes Crefydd a bydolygon yn y cyd-destun Ewropeaidd.
- [Mae adnoddau o'r gynhadledd yn Rhufain ar gael ar wefan EFTRE.](#)
- Mae cynhadledd 2025 i'w chynnal ar 21-24 Awst yn Budapest a'i theitl yw Celfyddyd Grymuso mewn AG - cymhlethdod cymunedol, tosturi ac ymrwymiad. Cynigiodd PL fod CCYSAGauC yn noddi athro i fynychu'r gynhadledd fel y llynedd.

- Ail gynnig - a fyddai CCYSAGauC yn cymeradwyo prosiect ar gyfer EFTRE i gefnogi edrych ar Gynefin o amgylch Ewrop ac a fyddai cyllid ar gael.
- EE: Cytuno i'r cynnig cyntaf mewn egwyddor ond mae angen trafod y ddau gynnig gyda'r Pwyllgor Gwaith a Thrysorydd CCYSAGauC.

PYCAG (Paula Webber)

- Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf yn Wrecsam, roedd yn gyfarfod hybrid, gwerthfawrogwyd bod yn yr ystafell a gweld y cynnydd trawiadol sy'n cael ei wneud gyda dysgu proffesiynol ledled Cymru, a pha mor galed y mae ein holl gynghorwyr a sefydliadau sy'n aelodau yn gweithio i gyflwyno dysgu proffesiynol ar gyfer CGM. Ar hyn o bryd rwy'n llunio rhestr o'r DP sydd ar gael ledled Cymru.
- Gofynnodd PW a fyddai'n bosibl rhestru'r ymgynghorwyr swyddogol i GYSAGau lleol ar wefan CCYSAGauC, fel bod yr athrawon yn gwybod pwy yw'r person priodol i fynd atynt am gymorth. Roedd gan PYCAG yn flaenorol dudalen ar yr hen wefan ac efallai y gellir ei hadfer.
- Hoffwn gael diweddariad ar lanlwytho'r adroddiadau blynyddol wedi'u diweddarau a'r meysydd llafur cytûn i wefan CCYSAGauC.

Materion lleol / ymholiadau

Adroddodd LJ:

- Rydym yn cefnogi CYSAGau lleol gyda'u materion lleol wrth iddynt ddod i mewn. Cawsom gwestiwn ynghylch a fyddai CCYSAGauC yn ystyried cynhyrchu rhywfaint o ganllawiau ar fannau gweddïo a myfyrio mewn ysgolion. Trafodwyd hyn gan Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC hyn ac ar hyn o bryd maent yn ystyried gwahanol ganllawiau sydd eisoes yn bodoli i weld a yw hyn yn rhywbeth y gallent gyfeirio ysgolion ato neu a oes angen cynhyrchu dogfen newydd.
- Mae llythyr wedi dod i law nifer o wahanol awdurdodau lleol ar ffurf copi caled, ac yn y bôn mae'n gŵyn am addysgu esblygiad mewn ysgolion. Nid yw'r llythyrau hyn wedi'u cyfeirio at CCYSAGauC, ond mae'n broblem i rai awdurdodau lleol, a dyna pam y mae wedi'i gynnwys yma. Nid yw pob awdurdod lleol wedi ei dderbyn. Mater i awdurdodau lleol unigol a'u CYSAGau yw sut y gallent ymateb iddo, ond gall CCYSAGauC gefnogi a chynghori, ond ni fyddai'n ymateb swyddogol gan CCYSAGauC.
- Mae un o'n CYSAGau wedi derbyn cwyn am efengylu eglwysig mewn ysgolion a lluniodd cynghorydd y CYSAG hwnnw, ynghyd â chynghorwyr eraill ledled Cymru, ymateb. Os oes gan unrhyw un o'r CYSAGau gŵyn debyg, yna gallwn rannu'r ymateb hwnnw.
- RB: Byddai diddordeb gennyf mewn derbyn unrhyw sylwadau sydd gennych ar fyfyrion. Mae 50% o'n cyfrifoldeb, mewn gwirionedd, ar gyfer CYSAGau yn ymwneud ag addoli ar y cyd, ac fel rhan o'n cynllun strategol, rydym wedi dechrau mynd i'r afael â hyn. Mae PL wedi siarad gyda phenaethiaid uwchradd yn ddiweddar iawn, ac mae deialog yn agored ynglŷn â llunio polisi cydsyniol, sut bydd addoli ar y cyd yn cael ei ddiffinio o fewn yr awdurdod ac yna ei gynnal o fewn yr ysgolion. Mae wedi cael derbyniad da.

14. Gohebiaeth

Darllenodd EE yr hysbysiad a dderbyniwyd gan MAGC.

- I grynhoi: Roedd yr hysbysiad yn ymwneud â diddymu MAGC (REMW), o ganlyniad i gyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2024, dan gadeiryddiaeth Llywydd MAGC. Galwyd y cyfarfod yn dilyn sawl trafodaeth ymgynghori. Dechreuodd y drafodaeth ar y mater hwn dros 10 mlynedd yn ôl, roedd nifer o ffactorau, gan gynnwys newidiadau mawr ym myd addysg a diflaniad ymgynghorwyr sirol a gyda mwyafrif llethol yr AALLau wedi rhoi'r gorau i gyfrannu at ariannu MAGC. Sylweddolodd yr ymddiriedolwyr fod MAGC wedi gwanhau cymaint fel nad oedd dewis ond ei ddirwyn i ben. Roedd hwn yn gam trist iawn iddyn nhw.
- Cynigiodd yr Ymddiriedolwyr bod cyllid MAGC yn cael ei drosglwyddo i Gyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru. Roedd yr Ymddiriedolwyr yn gwahodd y cyngor i gefnogi ei ddau gynnig, sef un i ddiddymu'r Mudiad, ac yn ail, i drosglwyddo ei asedau, gan gynnwys arian mewn llaw, i'r Cyngor Ysgolion Sul. Roedd y bleidlais i dderbyn y ddau gynnig yn unfrydol. Yn sylwadau terfynol y Cadeirydd ar y pryd, nodwyd y gallent fod yn falch o'r hyn y mae MAGC wedi'i gyflawni dros y degawdau. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cefnogaeth, ac yn arbennig i Rheinallt Thomas (RT) am ei rolau niferus dros gyfnod anodd yn hanes y mudiad. Cofnodwyd gwerthfawrogiad hefyd o gyfraniad Paul Morgan (PM) a gynrychiolodd MAGC ar CCYSAGauC, PYCAG a'r Cyngor Addysg Grefyddol dros y degawdau diwethaf.

EE: Mae CCYSAGauC bob amser wedi bod yn werthfawrogol iawn o'u cefnogaeth trwy RT a thrwy PM ac rydym wedi cydnabod yr hysbysiad ac wedi mynegi ein tristwch a'n cydymdeimlad iddynt ac wedi rhoi ein diolchiadau didwyll. Mae RT wedi anfon dolenni i lyfr dwyieithog ar hanes MAGC, a [dolen i ddeunydd cyhoeddiedig MAGC](#).

GWEITHREDU : Cysylltwch â LJ os hoffech dderbyn y dolenni hyn.

PW: Ar ran PYCAG, hoffwn ddiolch i bawb a fu'n ymwneud â MAGC, yn enwedig RT a PM. Mae'n ddiwrnod trist oherwydd mai MAGC oedd sylfaenwyr PYCAG. Dydw i ddim yn meddwl y byddai CCYSAGauC yn bodoli chwaith heb ddylanwad MAGC. Mae'r degawdau o gysondeb a gwaith y maent wedi dylanwadu arnynt yng Nghymru yn anhygoel. Rydw i a PYCAG yn ddiolchgar iawn am y gwaith maen nhw wedi'i wneud dros y blynyddoedd,

AP: Gohebiaeth arall:

- Mae Luke Donellan o Humanist UK wedi rhannu'r [ddolen hon i animeiddiad newydd yn y Gymraeg](#) ac adnoddau addysg eraill.
- Cododd Fiona Moss, Rheolwr Addysg a Rhaglenni Callum St Gabriels, y broblem, er bod bwrsariaeth o £10,000 ar gyfer hyfforddi athrawes Addysg Grefyddol yn Lloegr, nad oes unrhyw beth cyfatebol ar gyfer hyfforddi i fod yn athro CGM yng Nghymru. Roedd FM eisiau i CCYSAGauC wybod y sefyllfa bresennol a soniodd y byddai'n ddefnyddiol cael sgwrs ddilynol.

LJ: Rydym yn ddiolchgar bod Fiona wedi ein hysbysu. Er ein bod yn cytuno i fynd ar drywydd y syniad bwrsariaeth, rydym yn cynnal trafodaethau rheolaidd â LIC, yn chwilio am atebion dichonadwy a phendant eraill i fynd i'r afael â'r materion cymhleth sy'n ymwneud â recriwtio AGA yng Nghymru.

15. Unrhyw fater arall (i'w gytuno cyn y cyfarfod gyda'r Cadeirydd)

Ni adroddwyd dim

Diolchodd EE i'r aelodau am eu hamser yn y cyfarfod cynhyrchiol hwn.

16. Dyddiad y cyfarfod nesaf – Dydd Iau 6 Mawrth 2025 Pen-y-bont ar Ogwr - ar-lein.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.30pm.